



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Bwletin GwE



Rhannwch ein Bwletin â staff eich ysgol ac anogwch eich cyd-weithwyr i ymuno â'n rhestr bostio.

Cenhadaeth ein Cenedl:

Dathlu cynnydd, cryfhau cynhwysedd, a gallu ymgysylltu ar y cyd yn ein camau nesaf

• DYDD IAU • 28 TACHWEDD 2019 • VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Cliciwch yma i lawrlwytho'r rhaglen



Cynhadledd Ranbarthol Tymor yr Hydref, mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru



Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y **ddolen hon** a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwrch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau **yma**.

Gall y dyddiadau/lleoliadau newid. Edrychwrch ar G6 am y wybodaeth ddiweddaraf cyn i chi fynychu unrhyw ddigwyddiad.

TACHWEDD	DYDDIAD	LLEOLIAD	CYFRWNG
Cyfarfod Saesneg Lefel A Conwy / Dinbych / Môn / Gwynedd - Tymor yr Hydref	27/11/2019	GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn	Saesneg
Cyfarfodydd Rhwydwaith Cemeg Tymor yr Hydref Gwynedd a Môn	28/11/2019	Ysgol Friars, Bangor	Dwyieithog
Cyfarfodydd Rhwydwaith Bioleg Tymor yr Hydref Fflint a Wrecsam	28/11/2019	Ysgol Alun, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
Cyfarfodydd Rhwydwaith Ffiseg Tymor yr Hydref Conwy a Dinbych	28/11/2019	Ysgol Eirias, Bae Colwyn	Dwyieithog
Rhaglen Cymorthuddion Dysgu wrth eu Gwaith (Carfan - CYMRAEG - Clwb Golff Nefyn)	28/11/2019	Clwb Golff Nefyn, Pwllheli	Cymraeg
RHAGFYR			
Sesiwn galw i mewn [Bae Colwyn]: Offeryn Datblygu ar-lein i Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd	03/12/2019	GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn	Dwyieithog
Sesiwn galw i mewn [Yr Wyddgrug]: Offeryn Datblygu ar-lein i Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd	04/12/2019	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
Hyfforddiant Emosiwn ar gyfer Ysgolion	05/12/2019	Porth Eirias, Bae Colwyn	Saesneg
Sesiwn galw i mewn [Caernarfon]: Offeryn Datblygu ar-lein i Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd	05/12/2019	GwE, Penrallt, Caernarfon	Dwyieithog
Sesiwn galw i mewn [De Gwynedd]: Offeryn Datblygu ar-lein i Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd	09/12/2019	Lleoliad i'w gadarnhau	Dwyieithog

Cyfarfodydd Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen

Cynhelir cyfarfodydd rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen yn y lleoliadau isod rhwng 4:00 a 5:00 o'r gloch .
Nid oes angen i chi gofrestru.



LLEOLIAD

Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala
Ysgol Nant y Groes

DYDDIAD

27/11/2019
27/11/2019

CYFRWNG

Cymraeg
Saesneg

Rhagleni Proffesiynol

Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Darpar Benaethiaid - Paratoi ar gyfer CPCP

Mae'r rhaglen ddatblygu hon yn gylle dysgu proffesiynol cyffrous i arweinwyr ysgol profiadol o bob cwr o Gymru sy'n dymuno bod yn benaethiaid yn y dyfodol agos.
Mae cwblhau'r rhaglen yn ddisgwyliad ar gyfer pob ymgeisydd CPCP y dyfodol.

Cynhelir y rhaglen dros gyfnod o flwyddyn, ac mae'n gofyn am ymrwymiad sy'n gyfwerth â phum niwrnod rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2020.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth ac am ddyddiadau



Rhaglen Genedlaethol Darpar CALU

Mae'r Rhaglen ar gyfer Darpar CALU [yn arwain at asesiadau CALU] yn rhaglen newydd fydd yn cychwyn yn Ionawr 2020.
Ceir rhagor o fanylion am y Rhaglen newydd yn y fideo.



Sesiynau Gwybodaeth

Cynhelir sesiynau gwybodaeth ar gyfer cymorthydion dysgu a'u penaethiaid/rheolwyr.
Mae croeso i gymorthydion dysgu fynychu unrhyw un o'r sesiynau ar draws y rhanbarth.
Awgrymir yn grif bod eich penaeth/rheolwr llinell yn dod gyda chi.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth ac am ddyddiadau sesiynau

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Marian Williams

Swyddog Cefnogi Rhagleni Proffesiynol

calu@gwegogledd.cymru

01286 679976



Cliciwch ar y fideo er mwyn ei weld.



Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

Hoffai Cymwysterau Cymru siarad ag athrawon am asesiad diarholiad [NEA] ar gyfer TGAU



Mae Cymwysterau Cymru yn gwahodd athrawon y pynciau TGAU canlynol i gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp bach am eu canfyddiadau a'u profiadau o ddarparu ac asesu asesiadau diarholiad [NEA]:

1. Dylunio a Thechnoleg
2. Bwyd a Maeth
3. Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg
4. Hanes
5. Astudio'r Cyfryngau
6. Cerddoriaeth
7. Cymraeg Ail Iaith



Bydd Cymwysterau Cymru yn hwyluso trafodaethau yn ymwneud â'r pynciau periodol mewn pum lleoliad ar draws Cymru rhwng Tachwedd 2019 ac Ionawr 2020. Os ydych yn dysgu manyleb TGAU CBAC un o'r pynciau yma mewn ysgol uwchradd a gynhelir, coleg addysg bellach (AB), Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) neu ysgol annibynnol yng Nghymru, byddai Cymwysterau Cymru yn falch iawn o glywed eich barn. Mae rhagor o wybodaeth am sut i gofrestru ar gyfer mynychu grŵp flocws ar gael ar wefan Cymwysterau Cymru [yma](#).

Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

Gweler isod manylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich ysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrwydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:

Mantell yr Arbenigwr

- DYDD MERCHER, 12 CHWEFROR 2020**
- YSGOL CAE'R NANT, CEI CONNAH**
- 9:30—14:30**

Cynhelir Diwrnod Agored yn Ysgol Cae'r Nant, Cei Connah, CH5 4QL [statws ymarferdyd SA].

Cyfle i chi ei weld ar waith!

Am ragor o wybodaeth:

01244 830708

karen.roberts@ycn.flintshire.sch.uk

Cost y cwrs: £40 y pen, i'w dalu ymlaen llaw. Ni ddarperir cinio.

Mae'r diwrnod yn cynnwys:

Gwaith ymchwili addysgeg MyA, enghreifftiau o arfer dda a thath ddysgu o amgylch yr ysgol.

Brookfield Primary School Ysgol Gynradd Cae'r Nant



Gadewch i Fathemateg fynd â chi Ymhellach

CYNHADLEDD UNDYDD I FYFYRWYR MATHEMATEG GALLUOG BLWYDDYN 12

- DYDD MAWRTH, 17 RHAGFyr 2019**
- PRIFYSGOL BANGOR**
- 9:30 - 14**

Mae Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn falch o gyhoeddi cynhadledd undydd i fyfyrwyr Mathemateg galluog ym Mlwyddyn 12. Bydd pwyslais ar sut y gall mathemateg fod yn hwyl ac yn heriol, a sut y gall arwain at gyrsiau prifysgol cyffrous ac amrywiaeth o yrfaoedd.

Mae Zoe Griffiths wedi cytuno i roi ei sgwrs ddifyr ar **Fathemateg yn y Simpsons** a bydd cyfres o weithdai ar bynciau mathemateg hwyllog, lle bydd myfyrwyr mewn grwpiau bach.

Gobeithio gallwch ddod â grŵp o tua 15 o fyfyrwyr sydd yn dilyn Mathemateg neu Fathemateg Bellach fel pwnc Safon Uwch. Gobeithir y bydd y diwrnod yn apelio at eich mathemategwyr mwyaf disgrair ym Mlwyddyn 12. Darperir cinio i athrawon, bydd angen i'r plant ddod â'u cinio eu hunain.

Cysylltwch â e.w.clope@bangor.ac.uk am ragor o fanylion.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **Dydd Gwener, 29 Tachwedd 2019.**

Cyrsiau Blwyddyn 12 a 13

Bydd y cwrs 'Datrys Problemau Mathemateg Anarferol' sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer papurau prawf blwyddyn 13 (MAT, STEP ayyb), yn parhau ar y 7fed o Ragfyr ym Mangor. Fodd bynnag, **ni fydd** STEP yn parhau ym Mangor heblaw bod gennych fyfyrwyr blwyddyn 13 sydd â diddordeb. Rhowch wybod i e.w.clope@bangor.ac.uk cyn 29 Tachwedd os gwelwch yn dda. Bydd STEP a Datrys Problemau Mathemateg Anarferol yn parhau yn Wrecsam ar 14 Rhagfyr.

Dysgu Proffesiynol i Athrawon

Bydd cwrs dysgu proffesiynol FM 5 am ddim yn cael ei gynnig i athrawon Gogledd Cymru yn ystod y tymor yma. Gellir cynnal y cwrs yn eich ysgol ar ddiwrnod ysgol neu yn y Brifysgol ar ddyddiau Sadwrn. Cysylltwch â e.w.clope@bangor.ac.uk os oes gennych ddiddordeb.

Y Cliciadur

NEWYDDION I YSGOLION CYNRAADD CYMRU

Mae'r fersiwn diweddaraf o Y Cliciadur a Clic-it Cymru ar gael nawr ar wefan Hwb.

Cliciwch yma am gopi

Y Cliciadur



Digimeet

- DYDD MERCHER, 29 IONAWR 2020**

- YSGOL GYNRAADD BRYCHDYN**

- 16:00—17:30**

Ymunwch â ni yn Ysgol Gynradd Brychdyn mewn digwyddiad anffuriol ar ôl ysgol ble gallwch deithio o amgylch gwahanol fyrrdau mewn grwpiau i ddysgu mwy am sut i integreiddio dysgu digidol ar draws y cwricwlwm.

Cliciwch yma i weld mwy ac i gadw lle

Hwb



Rhannu Llyfrau i Hybu Sgiliau Iaith a Chymdeithasol-Emosiynol 2020



A yw eich ysgol gynradd eisai gwellhau parodrwydd ysgol a'ch perthynas gyda rhieni?
Oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o ddadansoddiad peilot o raglen Rhannu Llyfrau i rieni?
Os felly, rydym yn eich gwahodd i ymuno â phrosiect cyffrous...

Os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r astudiaeth hon, gyrrwch e-bost at Claire Owen psu4ed@bangor.ac.uk neu ffoniwch 01248 383627

Cliciwr yma am ragor o fanylion



Prif Weithredwr



ACADEMI GENEDLAETHOL AR GYFER ARWEINYDDIAETH ADDYSGOL

Mae'r Bwrdd yn chwilio am Brif Weithredwr deinamig i feithrin ac arwain yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (Yr Academi Arweinyddiaeth). Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arweinydd ysbrydoledig sy'n llawn hygrededd ac sy'n gallu dangos arweinyddiaeth strategol, sgiliau cyfathrebu ardderchog a dealltwriaeth o anghenion Cymru a'i system addysg.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 17 Ionawr 2020. Cynhelir cyfweliadau yn Abertawe ar 5 a 6 Chwefror 2020.

Am wybodaeth ac i wneud cais, cliciwr yma



Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

Uwch Reolwr –Sector Cynradd [Secondiad]

[Cyngor Sir Ynys Môn]

DYDDIAD CAU: 29/11/2019

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn chwilio am Uwch Reolwr – Sector Cynradd, i arwain ar yr holl faterion o fewn y Gwasanaeth Dysgu sydd yn ymwned â safonau, darpariaeth, ac arweinyddiaeth yn y sector cynradd. Bydd hefyd yn cyfrannu at agweddu ar ddyletswyddau a gwasanaethau corfforaethol o fewn y gwasanaeth.



Cliciwr yma am ragor o fanylion

Sut y gallai cyllid i gynnal prosiect ymchwil drawsnewid eich ysgol

MAE NAEL WEDI LANSIO RHAGLEN YMHOLI, ARLOESI, ARCHWILIO! AC MAENT AM I CHI WNEUD CAIS!

Mae'r Academi Genedlaethol ar Gyfer Arweinyddiaeth Addysgol [yr Academi Arweinyddiaeth] yn gwahodd ceisiadau am gyllid hyd at uchafswm o £10k fel rhan o raglen beilot a fydd yn cefnogi arweinwyr ysgol yng Nghymru i hybu'r defnydd gorau o ymholi yn eu sefydliadau.

RHAGOR O WYBODAETH



Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

TAR GWYDDONIAETH UWCHRAADD

LLWYBR CYFLOGEDIG NEWYDD: YN DECHRAU YM MIS EBRILL 2020

Mae'r Brifysgol Agored yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Consortia Rhanbarthol ac ysgolion partner ledled Cymru ar raglen TAR newydd i'w lansio yn 2020.

Bydd myfyriwr dan hyfforddiant ar ein llwybr cyflogedig newydd:

- yn astudio ar gyfer TAR am ddwy flynedd
- wedi'i leoli yn yr ysgol yn llawn amser, ac yn astudio o gwmpas ei ddyletswyddau presennol
- Telir ffioedd yn llawn.

Cyswllt GwE:

CeriWilliams3@gwegogledd.cymru



The Open
University
Y Brifysgol
Agored
Wales Cymru

AM RAGOR O WYBODAETH AM GYNLLUN PEILOT MIS EBRILL,
CYSYLLTWCH Â SARAH STEWART, CYFARWYDDWR TAR:

TAR-Cymru@open.ac.uk



AM RAGOR O WYBODAETH AM Y RHAGLENNI HYN AC
GOFRESTRU EICH DIDDORDEB, [CLICIWCH YMA](#)

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych - CYMRYD RHAN!

25 - 30 MAI 2020

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, sef un o wyliau teithiol ieuengtaid mwyaf Ewrop, yn dod i Sir Ddinbych yn ystod hanner tymor mis Mai. Dewch i ymuno yn yr hwl!



CLICIWCH YMA AM RAGOR O WYBODAETH

AM RESTR O'R TESTUNAU, CLICIWCH YMA

Hwb

Microsoft

Mae Microsoft 365 bellach yn rhad ac AM DDIM i ddysgwyr ac athrawon yng Nghymru

Arbedwch arian y Nadolig hwn! Yn syml, mewngofnodwch i Hwb a lawrlwythwch Office 365 [gwerth hyd at £69] ar hyd at 15 o'ch dyfeisiau personol.

Mae Office yn cynnwys: Word, Excel, PowerPoint, Publisher, Access, OneNote, Outlook a Skype for Business.

Gallwch hefyd gael mynediad i Minecraft Education Edition am ddim!!

Mae Minecraft Education Edition yn gêm fyd-agored sy'n hyrwyddo creadigrwydd, cydweithio a datrys problemau mewn amgylchedd y gallwch ymgolli yn ddo.

CLICIWCH YMA I GAEL EICH MEDDALWEDD

hwb.llyw.cymru/microsoft

Felly, rydym i gyd bellach yn ymchwilwyr? Sut y gall mentora helpu?

1 DYDD MERCHER, 4 RHAGFYR 2019 → YSGOL LLANDDULAS, ABERGELE ⌚ 17:00 – 19:00

Bydd y gweithdy rhyngweithiol hwn yn trafod themâu allweddol o ganfyddiadau ymchwil. Bydd hefyd yn gyfle i gynnal trafodaeth rydd a di-flwyn-ar-dafod fydd yn canolbwytio ar werth ymchwil er mwyn llywio a chefnogi mentora addysgiadol i ddatblygu arfer addysgegol yng Nghymru.

Bydd y digwyddiad yn helpu'r rhai sy'n cymryd rhan i werthuso'r agenda 'beth sy'n gweithio' a meddwl yn strategol am oblygiadau canfyddiadau ymchwil ar gyfer newid ar sail egwyddorion mewn arfer yn eu cyd-destunau addysgiadol eu hunain – fel darparwyr addysg athrawon ac ymarferwyr ysgol. Bydd ymchwil, dyfyniadau, samplau o ddata a thablau yn cael eu defnyddio fel ffynonellau i ysgogi ymatebion cyfranogwyr a thrafod cyfraniad y deunydd tuag at ddylunio dysgu proffesiynol a all arwain at ddeilliannau gweli i ddysgwyr.

Trwy'r gweithgareddau hyn, byddwn yn dechrau mynd i'r afael â'r dealltwriaethau sy'n gwrthdaro ymhliith rhanddeiliaid o 'ymchwil' a'i photensial i gael effaith ar arfer athrawon er lles dysgwyr, a'r adnoddau a'r ffynonellau arbenigedd sydd eu hangen i gefnogi athrawon a gweithwyr proffesiynol addysgiadol fel ymchwilwyr.

Bydd y sesiwn yn seiliedig ar ein hymchwil, ein canfyddiadau ymchwil perthnasol a'n hastudiaethau, ynghyd ag adroddiadau dylanwadol a'n blogiau ar ymchwil broffesiynol.



COFRESTRWCH YMA

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan

Rydym wedi diweddaru ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddfi gwarchod data. Gallwch weld y polisi [yma](#)
Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdansgrifio drwy gysylltu â bwletin@gwegoleddcymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

